GIG

Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol

Abladiad radio-amledd trwy'r croen o ganser arennol

Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd

Medi 2004

Gwybodaeth o Arweiniad Ymyriadau 91

Abladiad radio-amledd trwy'r croen o ganser arennol
Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2004

I archebu copïau
Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Ymateb y GIG; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch y rhif cyfeirnod N0704. Mae copi Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0703. Mae arweiniad ymriadau NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk). Gellir cael copïau o Linell Ymateb y GIG hefyd, rhif cyfeirnod N0702.

National Institute for Clinical Excellence

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk

ISBN: 1-84257-772-7

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol
Medi 2004
Gosodwyd Testun gan Icon Design, Eton
Argraffir yn ôl y galw

© Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Medi 2004.
Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

Cynnwys

Ynglŷn â'r wybodaeth hon	**4**
Ynglŷn ag abladiad radio-amledd trwy'r croen	**5**
Beth y mae NICE wedi'i benderfynu?	**8**
Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi	**9**
Gwybodaeth bellach	**10**

Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae'r wybodaeth hon yn disgrifio'r arweiniad y mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) wedi ei ddosbarthu i'r GIG ar weithdrefn a elwir yn abladiad radio-amledd trwy'r croen. Nid yw'n ddisgrifiad cyflawn o'r hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu – dylai tîm gofal iechyd y claf ei disgrifio yn fanwl.

Mae NICE wedi edrych ar ba un a yw abladiad radio-amledd trwy'r croen yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w ddefnyddio fel triniaeth arferol ar gyfer canser arennol (canser yr aren).

Er mwyn llunio'r arweiniad hwn, mae NICE wedi:

- edrych ar ganlyniadau astudiaethau o ba mor ddiogel yw abladiad radio-amledd trwy'r croen ac o ba mor dda y mae'n gweithio
- gofyn am farn arbenigwyr
- gofyn am farn sefydliadau sy'n cynrychioli gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a'r cleifion a'r gofalwyr yr effeithir arnynt gan yr arweiniad hwn.

Mae'r arweiniad hwn yn rhan o'r gwaith y mae NICE yn ei wneud ar 'ymyriadau' (gweler 'Gwybodaeth bellach' ar dudalen 10).

Ynglŷn ag abladiad radio-amledd trwy'r croen

Canser yr aren yw canser arennol. Ychydig iawn o symptomau sydd i'w gweld yn ystod y camau cynnar; y peth cyntaf y bydd pobl yn dueddol o sylwi arno yw gwaed yn yr wrin. Mae symptomau eraill yn cynnwys poen neu chwydd neu'r ddau symptom yma yn yr ochr.

Y dirniath arferol ar gyfer canser arennol yw llawdriniaeth i dynnu'r aren gyfan neu ran ohoni. Mae meddygon wedi ceisio datblygu ffyrdd o ddinistrio celloedd y canser heb yr angen i dynnu rhannau o'r aren yn llawfeddygol. Mae'r rhain yn cynnwys llawdriniaeth 'twll clo' i dynnu'r tiwmor, a dulliau o niweidio celloedd y canser sy'n golygu defnyddio gwres, tonnau sain neu dymheredd oer.

Mae abladiad radio-amledd trwy'r croen yn defnyddio gwres i ddinistrio celloedd y canser yn yr aren. Mae'n golygu gosod un neu fwy o electrodau (stilwyr y mae cerrynt trydanol yn rhedeg drwyddynt) i mewn i ardal y canser ('tiwmor'). Defnyddir yr electrodau i gynhesu a dinistrio'r tiwmor. Gellir gosod yr electrodau (sydd ar ffurf nodwyddau) yn yr aren drwy'r croen, heb fod angen gwneud toriadau mawr. Mae'r meddyg yn defnyddio delweddau (megis delweddau uwchsain) i weld beth mae'n ei wneud y tu mewn i'r corff.

Gellir defnyddio abladiad radio-amledd trwy'r croen ar gyfer cleifion sydd â thiwmorau bach, neu na allant gael llawdriniaeth, neu nad ydynt am gael llawdriniaeth.

Pa mor dda y mae'n gweithio

Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Ni chafwyd lawer o astudiaethau sydd wedi edrych ar y weithdrefn hon. Mewn un astudiaeth o wyth o bobl, roedd pob claf ond un yn rhydd o ganser ar ôl bron flwyddyn a hanner. Dangosodd astudiaethau eraill bod y driniaeth wedi gweithio mewn dros dri chwarter o'r cleifion a gafodd y weithdrefn. Ymddengys, fodd bynnag, fod angen mwy nag un driniaeth ar gyfer tiwmorau mwy o faint.

Er ei bod yn ymddangos bod y weithdrefn yn gweithio, roedd nifer y cleifion yr edrychwyd arnynt yn fach iawn. Roedd gwahaniaethau rhwng y cleifion hefyd, er enghraifft maint y tiwmor neu ei leoliad yn yr aren, a allai fod wedi effeithio ar ba mor dda roedd y weithdrefn wedi gweithio. Oherwydd hyn a'r ffordd y cofnodwyd yr astudiaethau, roedd yn anodd penderfynu pa mor dda roedd y weithdrefn yn gweithio yn yr hirdymor.

Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Roedd un arbenigwr o'r farn po fwyaf y tiwmor, y lleiaf tebygol oedd y weithdrefn o weithio, hyd yn oed pe câi ei hailadrodd. Hefyd, cytunodd yr arbenigwyr nad oedd yn bosibl bod yn siwr o ba mor dda y mae'r weithdrefn yn gweithio yn yr hirdymor gan fod cyn lleied o gleifion wedi cael eu hastudio.

Risgiau a phroblemau posibl

Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Y broblem fwyaf cyffredin a welwyd mewn cleifion oedd croniad o waed ger yr aren, a elwir yn haematoma. Roedd problemau eraill yn cynnwys poen yn yr abdomen, a 'chulhad wreterig', sef culhad yn y bibell sy'n rhedeg o'r aren i'r bledren, gan olygu na all wrin lifo'n gywir.

Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Roedd yr arbenigwyr o'r farn mai'r problemau cyffredin mwyaf tebygol fyddai gwaedu, haint a chulhad wreterig. Roeddent hefyd o'r farn y gallai celloedd y canser ledaenu lle y câi'r electrodau eu rhoi i mewn, ac y gellid niweidio'r coluddyn.

Beth y mae NICE wedi ei benderfynu?

Mae NICE wedi ystyried y dystiolaeth ar abladiad radio-amledd trwy'r croen o ganser arennol. Er ei bod yn ymddangos bod y weithdrefn yn ddiogel i'w defnyddio, mae NICE wedi penderfynu bod cyfyngiadau yn y dystiolaeth sydd ar gael ar ba mor dda y mae'n gweithio. Mae wedi penderfynu, er bod tystioloaeth gyfyngedig yn awgrymu y gall y weithdrefn leihau'r tiwmor, nid oes digon o dystiolaeth i ddangos a yw'n gwella symptomau'r claf, a pha mor hir y mae'r cleifion yn byw ar ôl hynny. Os yw meddyg am gynnal y weithdrefn hon, dylai sicrhau bod y claf yn deall yr hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu a bod ansicrwydd o hyd ynglŷn â diogelwch y weithdrefn a pha mor dda y mae'n gweithio. Dylid gwneud trefniadau arbennig i sicrhau mai dim ond ar ôl y drafodaeth hon y bydd y claf yn cytuno (rhoi caniatâd) i'r weithdrefn.

Mae NICE wedi penderfynu hefyd mai dim ond ar gyfer cleifion na allant gael llawdriniaeth y dylid defnyddio'r weithdrefn fel arfer ac na ddylid ond ei chynnig ar ôl iddynt gael eu hasesu gan dîm arbenigol o weithwyr iechyd proffesiynol sy'n cynnwys wrolegydd (meddyg sydd wedi ei hyfforddi'n arbennig i drin anhwylderau arennol a'r llwybr wrinol)a radiolegydd ymyriadol (meddyg sy'n arbenigo mewn defnyddio pelydr-x a sganiau i lywio triniaeth drwy lawdriniaeth 'twll clo' yn hytrach na llawdriniaeth agored).

Sylwadau eraill gan NICE

Mae'n anodd i feddygon ddweud a yw'r canser wedi cael ei ddinistrio oherwydd y cyfyngiadau technegol a ddefnyddir i fesur hyn. Hefyd, ni wyddom lawer am y ffordd y mae tiwmorau arennol bach yn datblygu'n naturiol, felly mae'n anodd gwybod pa mor hir y byddai claf yn byw heb driniaeth.

Roedd NICE hefyd o'r farn y byddai maint y tiwmor a'i leoliad yn yr aren yn effeithio ar ba mor dda y mae'r weithdrefn yn gweithio – mae'r canlyniadau yn debygol o fod yn well os yw'r tiwmor yn fach ac yn agos at wyneb yr aren.

Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi

Efallai fod eich meddyg wedi cynnig abladiad radio-amledd trwy'r croen i chi. Mae NICE wedi ystyried y weithdrefn hon am ei bod yn gymharol newydd. Mae NICE wedi penderfynu bod ansicrwydd ynglŷn â manteision abladiad radio-amledd trwy'r croen y mae angen i chi eu deall cyn i chi gytuno i gael y weithdrefn. Dylai eich meddyg drafod y manteision a'r risgiau gyda chi. Efallai fod rhai o'r manteision a'r risgiau hyn wedi'u disgrifio uchod.

Gwybodaeth bellach

Mae gennych hawl i gael yr holl wybodaeth ac i gymryd rhan yn y penderfyniad a wneir am y driniaeth a gewch. Efallai y byddwch am drafod yr arweiniad hwn gyda'r meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch.

Gallwch ymweld â gwefan NICE (www.nice.org.uk) i gael gwybodaeth bellach am y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol a'r Rhaglen Ymyriadau. Mae copi o'r arweiniad llawn am abladiad radio-amledd trwy'r croen ar wefan NICE (www.nice.org.uk/IPG091guidance), neu gallwch archebu copi o'r wefan neu drwy ffonio Llinell Ymateb y GIG ar 0870 1555 455 a dyfynnu rhif cyfeirnod N0702. Mae'r dystiolaeth a ystyriodd NICE wrth ddatblygu'r arweiniad hwn hefyd ar gael o wefan NICE.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am ganser yr aren, mae Galw Iechyd Cymru yn fan cychwyn da (ffoniwch 0845 46 47), neu Galw Iechyd Cymru Ar-lein (www.nhsdirect.wales.nhs.uk).

Dyddiad: Medi 2004